A yw'r Rheoliadau newydd ynglŷn â Dirgryndod wedi dod i rym eto? Os felly a yw'r HSE wedi cynhyrchu unrhyw ganllawiau?

Llofnodwyd y Rheoliadau Rheoli Dirgryndod yn y Gwaith ar 4ydd Ebrill ac fe'i cyflwynwyd gerbron y senedd ar 7 Ebrill 2005. Maent yn gweithredu'r Gyfarwyddeb ar Dirgryndod a daethant i rym ar 6 Gorffennaf 2005. Maent wedi'u cyhoeddi ac maent ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr HSE yn y cyfeiriad canlynol:

http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20051093.htm

Mae'r HSE yn y broses o gyhoeddi dau gyhoeddiad newydd ar y rheoliadau newydd. Y manylion yw:

- L140: Hand-arm vibration: Control on Vibration at Work Regulations 2005 ISBN: 0717661253 bwriedir ei gyhoeddi yn hydref 2005 (pris i'w gadarnhau)
- L141: Whole-body vibration: Control of Vibration at Work Regulations 2005 ISBN: 0717661261 bwriedir ei gyhoeddi yn hydref 2005 (pris i'w gadarnhau)

Mae hefyd nifer o daflenni am ddim sydd ar gael ar unwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **INDG175 Control the risks from hand arm vibration advice for emplyers**
- **INDG296 Hand arm vibration advice for employees (cerdyn poced)**
- **INDG242 Control of back pain risk from whole body vibration advice for employers**
- **INDG404 Drive away bad backs, advice for mobile plant operators and drivers (cerdyn poced)**

Mae copïau caled o'r cyhoeddiadau y cyfeirir atynt uchod ar gael gan HSE Books:

HSE Books
PO Box 1999,
Sudbury,
Suffolk, CO10 2WA.
Ffôn: 01787 881165
Ffacs: 01787 313995
Ebost: hsebooks@prolog.uk.com
http://www.hsebooks.com

Mae tri dull o dalu ar hyn o bryd ar gael gan HSE Books:

1. Drwy'r post, sieciau banc/ archebion post yn daladwy i HSE Books
2. Dros y ffôn, American Express, Master Card neu Visa
3. Gall cwsmeriaid sydd â chyfrif credyd presennol ddefnyddio System Clirio Awtomaidd Banciau (BACS). Fodd bynnag, nid yw cyfrifon newydd yn cael eu sefydlu.

Gellir hefyd llwytho llawer o'r cyhoeddiadau am ddim i lawr o wefan HSE:

http://www.hse.gov.uk/vibration/information.htm